# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Ionawr 2026

Amser: 15.00 - 16.30

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15719

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni<br>Dr James George, Llywodraeth Cymru<br>Dion Thomas, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

# 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

## 2.1 SL(6)696 – Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 2) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 2.2 SL(6)698 – Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau’r Senedd) 2025

Trafododd y Pwyllgor y Cod a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 2.3 SL(6)699 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau’r Senedd) 2025

Trafododd y Pwyllgor y Cod a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 2.4 SL(6)700 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau’r Senedd) 2025

Trafododd y Pwyllgor y Cod a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i dynnu sylw at anghysondebau rhwng testun Cymraeg a thestun Saesneg is-ddeddfwriaeth a drafodwyd gan y Pwyllgor.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)694 – Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)697 – Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)701 – Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.4 SL(6)702 – Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.5 SL(6)703 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Costau Ardoll Ymwelwyr) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd yn unol â’r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)677 – Rheoliadau Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Darpariaethau Canlyniadol, Darpariaeth Drosiannol, Darpariaeth Ddirymu a Darpariaeth Arbed) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 4.2 SL(6)692 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 4.3 SL(6)693 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

### 6.2 Gohebiaeth oddi wrth Brif Weinidog Cymru: Adroddiad Blynyddol y Cytundeb Treftadaeth Geltaidd

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Brif Weinidog Cymru.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**7.2 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Magnesiwm L-threonad monohydrad) (Cymru) 2026**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

**7.3 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

**7.4 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Mabwysiadu penderfyniadau digonolrwydd data newydd y DU gan y Comisiwn Ewropeaidd**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 9, 10, 13 a 14

Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2).

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft, a nododd ei ohebiaeth at y Pwyllgor Busnes. Cytunodd y Pwyllgor i drafod fersiwn ddiwygiedig o'r adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.

## 11 Bil Cynllunio (Cymru) - Trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Roedd Mark Isherwood yn absennol pan drafodwyd gwelliannau i'r Bil Cynllunio (Cymru) a phan gynhaliwyd pleidlais arnynt.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, gwaredodd y Pwyllgor y gwelliannau a ganlyn i'r Bil:

Gwaredwyd gwelliannau 1 a 2 gyda'i gilydd.

Derbyniwyd **gwelliannau 1 a 2 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gan fod pob gwelliant wedi'i waredu, cadarnhaodd y Cadeirydd fod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar gyfer y Bil wedi'u cwblhau.

## 12 Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) - Trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Roedd Mark Isherwood yn absennol pan drafodwyd gwelliannau 1 i 19 i'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) a phan gynhaliwyd pleidlais arnynt.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, gwaredodd y Pwyllgor y gwelliannau a ganlyn i'r Bil:

Derbyniwyd **gwelliant 1 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 2 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gwaredwyd gwelliannau 4, 5, 6 a 7 gyda'i gilydd.

Derbyniwyd **gwelliannau 4, 5, 6 a 7 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 8 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 9 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 10 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 11 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 12 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 13 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 14 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 15 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 16 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 17 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 18 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 19 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 20 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 21 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Derbyniwyd **gwelliant 22 (Julie James)** yn unol â Rheol Sefydlog 17.34(i).

Gan fod pob gwelliant wedi'i waredu, cadarnhaodd y Cadeirydd fod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar gyfer y Bil wedi'u cwblhau.

## 13 Bil Cynllunio (Cymru) a Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru): Camau nesaf Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Cytunodd yr Aelodau i drafod adroddiad drafft ar ei ystyriaeth o'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

## 14 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.